O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 194 (Cy.38)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffyrdd yr A487 a'r A55 (Cyffordd 9 (Treborth), Bangor, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 30 mya Dros Dro) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *31 Ionawr 2011* |
| *Yn dod i rym* | *7 Chwefror 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abergwaun - Bangor (yr A487) a chefnffordd Caer - Bangor (yr A55) (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel "y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Chwefror 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A487 a'r A55 (Cyffordd 9 (Treborth), Bangor, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 30 mya Dros Dro) 2011.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y darnau o'r cefnffyrdd"*("the lengths of the trunk roads")* yw:

i. y darn hwnnw o'r gerbytffordd tua'r gogledd cefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt 50 o fetrau i'r de-orllewin o Gylchfan Ty'n Lôn (Treborth) i bwynt 100 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â Ffordd Bronwydd, gan gynnwys cerbytffordd gylchredol y cyfryw gylchfan.

ii. y darn hwnnw o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain cefnffordd yr A55 wrth Gyffordd 9 (Treborth) sy'n ymestyn am 50 o fetrau i gyfeiriad dwyreiniol o'i chyffordd â Chylchfan Ty'n Lôn (Treborth);

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 07:00 o'r gloch ar 7 Chwefror 2011 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud oddi yno'n derfynol.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd.

**4.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad y maent yn cyfeirio ato ar waith.

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 31 Ionawr 2011

***J COLLINS***
Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyflenwi Seilwaith
Llywodraeth Cynulliad Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi.

**(2)** Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac, Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.